

RHODRI ap GRUFFYDD (bu farw c. 1315), tywysog yng Ngwynedd

Enw: Rhodri ap Gruffydd

Dyddiad marw: c. 1315

Priod: Catherine wraig Rhodri ap Gruffydd

Priod: Beatrice de Malpas

Plentyn: Thomas ap Rhodri

Rhiant: Senena ferch Caradog

Rhiant: Gruffydd ap Llywelyn

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: tywysog yng Ngwynedd

Maes gweithgaredd: Perchnogaeth Tir; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig

Awdur: Thomas Jones Pierce

trydydd mab [Gruffydd ap Llywelyn](#) a Senana, a brawd [Owen Goch](#), [Llywelyn II](#), a [David III](#). Ymddengys yn gyntaf fel gwystl ieuanc yn nwylo Harri III yn 1241. Y mae'n debyg iddo gael ei ryddhau yn 1248; dychwelodd i Gymru ac aeth [Owen](#) a [Llywelyn](#) yn feichiafon dros ei deyrngarwch i'r brenin. Yn ddiweddarach gorfu iddo ddioddef yn sgîl ymdrechion [Llywelyn](#) yn erbyn yr arfer o rannu tiroedd ac etifeddiaethau yn gydradd, eithr wedi iddo dreulio rhai blynyddoedd yn garcharor cytunodd, yn 1272, i werthu ei hawliau yng Ngwynedd pan addawodd [Llywelyn](#) dalu iddo fil o forciau. Ni chadwodd [Llywelyn](#) y cytundeb ar unwaith a dihangodd Rhodri i Loegr. Ddwy waith wedi hynny ceisiodd Edward I drefnu i orfodi [Llywelyn](#) i gadw'r cytundeb; 50 morc yn unig a dalesid hyd at ddiwedd y flwyddyn 1278, eithr talwyd 100 morc arall o leiaf yn Aberconwy erbyn mis Tachwedd 1280. Yn 1292 cafodd flwydd-dâl o £40 gan y brenin. Yn y cyfamser (sef yn 1281) yr oedd wedi priodi Beatrice, merch ac aeres David de Malpas, ac o hyn allan fe'i ceir yn berchennog tir ac yn aer o beth pwysigrwydd yn sir Gaerlleon (Fawr); yr oedd hefyd yn arglwydd maenor yn Surrey. Wedi i Beatrice farw (yn 1290) priododd, yn ail wraig, ferch o'r enw Catherine, a'i goroesodd. Cafwyd un mab o'r ail briodas, sef [Thomas ap Rhodri](#), tad [Owen ap Thomas ap Rhodri](#).

Awdur

Yr Athro Thomas Jones Pierce, (1905 - 1964)

Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. I

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. II

Littere Wallie (1940)

Calendar of Ancient Correspondence concerning Wales (1935)

Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1899-1900, 28-37

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Rhodri ap Gruffudd](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q1088000](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.